Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd




# Adroddiad Effaith Blynyddol

2024-25

# Cynnwys


3 Ein cylchred strategol

4 Ein cenhadaeth

5 Swyddogion Sabothol

6 Buddugoliaethau i fyfyrwyr

7 Gwobrau

8 Prif Weithredwr

9 Llywydd Undeb y Myfyrwyr

10 Ymgysylltiad a boddhad

12 Cymuned Caerdydd

13 Bywyd academaidd

14 Profiadau myfyrwyr

15 Lles a'r dyfodol

16 Adnoddau

17 Pobl

18 Digidol a data

19 Cyllid

20 Ymddiriedolwyr 2024-25


Calon bywyd myfywyr Caerdydd

# Ein cylchred strategol

**Yn 2021, lansiwyd ein Cynllun Strategol Newydd sydd wedi llunio ein cyfeiriad hyd at 2025. Roedd y flwyddyn academaidd hon yn cynrychioli'r cam olaf yn y daith pum mlynedd, gan adeiladu ar waith gwych a llwyddiant 2023-24 wrth i ni barhau i wireddu ein gweledigaeth.**

## Ein strategaeth

Nod y strategaeth oedd ailadeiladu gweithgareddau a gwasanaethau i lefelau cyn-bandemig o ran ymgysylltiad, incwm a boddhad myfyrwyr, gan gydnabod na fydd pob un o'r rhain yn dychwelyd yn gyflym oherwydd diffyg cof myfyrwyr a gwahaniaeth mewn disgwyliadau myfyrwyr yn dilyn Covid-19.

Roedd gan y strategaeth hon fwy o ffocws ar les myfyrwyr a ffocws ar y gwasanaethau sy'n cefnogi myfyrwyr sy'n teimlo'n unig ac wedi'u hynysu, gan mai'r grwpiau hyn oedd wedi'u heffeithio fwyaf yn ystod y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig.

Roedd 2024-25 yn flwyddyn wych arall ar gyfer ymgysylltiad myfyrwyr a llwyddiant masnachol yn erbyn cefndir heriol i'r sector addysg uwch. Rydym wedi parhau i ddarparu ein holl ddigwyddiadau a gwasanaethau anhygoel i fyfyrwyr, gan eu cefnogi i ffynnu a bod yno iddyn nhw pan nad yw pethau'n mynd fel y disgwyl.



# Ein cenhadaeth

## Arweinyddiaeth myfyrwyr

- Byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel ar draws y sefydliad ac yn teimlo eu bod â'r gallu i greu newid.

## Cynhwysiant

- Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n holl aelodau myfyrwyr, trwy leihau rhwystrau i gymryd rhan ac ymestyn allan at grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

## Partneriaeth

- Byddwn yn sicrhau ein bod yn datblygu partneriaethau effeithiol a gwerthfawr gyda sefydliadau sy'n ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol o Brifysgol Caerdydd, y gymuned ehangach a sector undeb y myfyrwyr.

## Amrywiaeth

- Byddwn yn dathlu amrywiaeth ein staff a'n haelodau myfyrwyr a byddwn yn cefnogi myfyrwyr i fod yn llais dros newid wrth herio anghyfiawnderau yn y sector addysg a'r gymdeithas.



# Swyddogion Sabothol 24-25



# Buddugoliaethau i fyfyrwyr

Bob blwyddyn, mae ein myfyrwyr yn ethol tîm o fyfyrwyr i'w cynrychioli nhw a'u buddiannau academaidd. Mae'r Swyddogion Etholedig yn gweithio ar nifer o brosiectau drwy gydol y flwyddyn; o lobïo'r Brifysgol i newid a gwella'r pethau sy'n bwysig i fyfyrwyr, i ymgyrchu ar y materion sy'n effeithio arnyn nhw fel tai, iechyd meddwl, a chynrychioli llais y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd.

- Roedden ni yno dros ein myfyrwyr pan gyhoeddodd Prifysgol Caerdydd y cynigion Dyfodol Academaidd. Buom yn ymgyrchu i herio'r toriadau, yn gweithio i ddiogelu addysg myfyrwyr, yn grymuso llais y myfyrwyr, a sefyll gyda staff a rhanddeilliaid. Roedd hyn yn cynnwys trefnu digwyddiadau neuadd y dref i fyfyrwyr, gan roi cyfle iddyn nhw leisio pryderon a gofyn cwestiynau i'r Is-ganghellor. Fe wnaethom hefyd ddarparu ffyrdd hygyrch a strwythuredig i fyfyrwyr rannu eu barn, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu cynrychioli ar bob cam.

- Fe wnaethon ni lansio'r ymgyrch 'Let's Talk Consent' i godi ymwybyddiaeth o drais rhywiol ymhlith myfyrwyr, ac fe hyfforddon ni 300 o arweinwyr myfyrwyr i weithredu fel gwylwyr gweithredol ac i ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol.

- Fe wnaethon ni sicrhau nad oedd Tiwtoriaid Graddedig o fewn cwmpas diswyddiadau'r cynigion Dyfodol Academaidd y Brifysgol a sicrhau bod Cynorthwywyr Addysgu Ôl-raddedig wedi'u tynnu allan o'r cwmpas hefyd.

- Fe wnaethon ni sefydlu cynllun mentora cymheiriaid ôl-raddedig ymchwil cyntaf erioed ar draws y Brifysgol.

- Fe wnaethon ni lobïo'r Brifysgol i adfer cyflog myfyrwyr ôl-raddedig ymchwil Ysgol Fusnes Caerdydd (CARBS) ar ôl iddynt gael eu lleihau - ac fe lwyddon ni i'w cynyddu i gyd-fynd â chyfradd UKRI!

- Fe wnaethon ni ymgyrchu yn erbyn cyfyngiadau parcio myfyrwyr, gan sicrhau 4,300 o lofnodion deiseb a 250 o ymatebion ymgynghori, gan sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed wrth lunio polisi lleol.

- O ganlyniad i'n hymgyrchu dros well mannau gweddi ym Mharc y Mynydd Bychan, mae gennym ddatrysiad dros dro sef ystafell weddi newydd yn Adeilad Cochrane. Er bod y prosiect yn parhau, rydym wedi gwneud camau yn y cyfeiriad cywir ac wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol i ddatblygu digon o fannau gweddi.

# Gwobrau

Ar ôl 10 mlynedd o gael ei bleidleisio ymhlith y 10 Undeb Myfyrwyr Gorau yn y DU - ac y gorau yng Nghymru - dathlon ni ein pedwaredd flwyddyn yn olynol fel un o'r dau gorau yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr WhatUni 2025. Gyda sgôr boddhad myfyrwyr o 94% - ein sgôr uchaf erioed - a nifer record o adolygiadau 5 seren, mae'r canlyniad hwn yn ein gwneud ni'r Undeb Myfyrwyr uchaf ei safle yng Nghymru a Phrydain Fawr.

Mae UMC yn ymfalchïo'n fawr yn ei lleoliad ym mhrifddinas Cymru, ac fel sefydliad rydym yn gweithio i gael effaith gadarnhaol ar y ddinas a'i chymuned. Roedden ni'n falch iawn o gael ein gwobrwyo â Gwobr yr Iaith Gymraeg yng Ngwobrau Bywyd Caerdydd 2025, mewn cydnabyddiaeth o'n cynllun datblygu iaith Gymraeg gadarn a'n hymrwymiad cryfach i'r iaith Gymraeg. Cawsom hefyd ein cynnwys ar y rhestr fer mewn dau gategori arall: Bar a Thafarn a Dinesig. Mae'n anrhydedd i'r sefydliad gael ei gydnabod am ei gyfraniad i wella Caerdydd ac i gyfoethogi sîn adloniant y ddinas.

Yn ogystal â hyn, mae UMC yn parhau i ragori ym maes chwaraeon, sy'n arbennig o drawiadol o ystyried nad yw Prifysgol Caerdydd yn cynnig cyrsiau academaidd ym maes chwaraeon na ymarfer corff. Fe restrwyd UMC yn 11eg yn nhabl Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) unwaith eto eleni. UMC sydd yn y safle uchaf ac yn arwain ymhilth y sefydliadau nad ydynt yn cynnig rhaglenni academaidd perthnasol.



# Prif Weithredwr

Mae hon wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol i UMC, wedi'i nodi gydag ymgysylltiad myfyrwyr fwy nag erioed, ymgyrchoedd pwerus a gwell gwasanaethau. Cyrhaeddodd ein hymgysylltiad â myfyrwyr bron i 74,000 o ryngweithiadau, gyda bron i 25,000 o fyfyrwyr yn cymryd rhan.

Am ddegawd, rydym wedi bod ymhlith y 10 Undeb Myfyrwyr Gorau yn y DU - ac yn 2025 pleidleisiodd ein myfyrwyr ni i'r ddau uchaf am y bedwaredd flwyddyn yn olynol yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr WhatUni. Mae ein staff yr teimlo yr un mor bositif, gyda 92% yn cytuno bod Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn lle gwych i weithio.

Un foment fawr eleni oedd nodi 50 mlynedd ers agor drysau adeilad Undeb y Myfyrwyr ar Blas y Parc. Er bod yr Undeb ei hun wedi bodoli ers bron i 130 mlynedd, roeddem yn falch o ddathlu hanner canmlwyddiant yr adeilad sydd wedi chwarae rôl ganolog wrth lunio bywyd myfyrwyr yng Nghaerdydd dros y pum degawd diwethaf. Roedd yn gyfle gwych i ddod â Swyddogion Sabothol a staff blaenorol ynghyd i edrych yn ôl, rhannu atgofion, a bod yn falch o ba mor bell yr ydym wedi dod.

**Daniel Palmer**
**Prif Weithredwr**



# Llywydd Undeb y Myfyrwyr

Cawsom ddechrau gwych i'r flwyddyn wrth i ni groesawu 15,000 o fyfyrwyr i'r Undeb yn ystod Wythnos y Glas, gan gynnig amrywiaeth ehangach o weithgareddau di-alcohol i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan.

Gwelsom ein hail nifer uchaf erioed yn etholiadau'r gwanwyn, gyda 8,521 o fyfyrwyr yn pleidleisio i ddewis y tîm a fydd yn arwain yr UM.

Ynghyd â'r llwyddiannau hyn, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i gefnogi lles myfyrwyr ac i sefyll wrth eu hochr yn ystod blwyddyn heriol.

Fe wnaethon ni ymgyrchu yn erbyn y cyfyngiadau ar barcio myfyrwyr, gan sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed wrth lunio polisïau lleol. Buom hefyd yn sefyll wrth ochr myfyrwyr pan gyhoeddwyd cynigion Dyfodol Academaidd gan Brifysgol Caerdydd, gan ymgyrchu i herio'r toriadau a grymuso lleisiau myfyrwyr.

Rydym yma i gefnogi ac i wrando ar ein myfyrwyr, boed hynny'n mynd i'r afael â chostau byw gyda'n digwyddiad 'Bwydo'ch Fflat', a helpu dros 1,000 o fyfyrwyr i stocio fyny ar eitemau hanfodol, neu drwy annog pobl i 'SHAG safe' fel rhan o'n hymgyrch ymwybyddiaeth iechyd rhywiol.

Mae wedi bod yn flwyddyn enfawr i ni, llawn twf, heriau newydd, a llawer o eiliadau i fod yn falch ohonynt. Rwy'n edrych ymlaen at barhau'n rhan o Undeb Myfyrwyr Caerdydd wrth i ni weithio i wneud bywyd myfyrwyr yng Nghaerdydd hyd yn oed yn well.

**Maria Pollard**
**Llywydd Undeb y Myfyrwyr 2025-26**



# Ymgysylltiad a boddhad

**Mae ymgysylltiad myfyrwyr yn parhau i dyfu, gyda 2025 yn nodi'r lefel uchaf o ymgysylltiad erioed i Undeb Myfyrwyr Caerdydd.**

## Cyfanswm ymgysylltiadau:

I fyny o 70,923 yn 2024 i 74,116 yn 2025 - cynnydd o 4.5%, sef y lefel uchaf o gyfranogiad cyffredinol a gofnodwyd.

Myfyrwyr unigryw a ymgysylltodd: gostyngiad bach o 24,923 i 24,630 (i lawr 1.2%) sy'n awgrymu bod tua'r un nifer o fyfyrwyr yn cymryd rhan, ond bod pob myfyriwr bellach yn cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau ar gyfartaledd.

Yn gryno, mae Undeb y Myfyrwyr yn ymgysylltu â chyfran gyson o gorff y myfyrwyr, ond mewn ffordd gyfoethocach a mwy amrywiol nag erioed o'r blaen. Mae myfyrwyr yn cysylltu ag amrywiaeth ehangach o agweddau o fywyd yr Undeb, o gynrychiolaeth a chyngor, i gyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol a datblygiadol, gan ddangos gwir ddyfnder ac ehangder yn y ffordd y mae ymgysylltiad yn tyfu ar draws popeth a wnawn.

Mae'r cyfnod o 2023 i 2025 yn cynrychioli tair blynedd sefydlog, gwbl weithredol i Undeb Myfyrwyr Caerdydd, a cham olaf y cynllun strategol presennol. Mae ymgysylltiad wedi tyfu'n gyson ar draws y rhan fwyaf o feysydd, gan gyrraedd y cyfansymiau uchaf erioed yn 2025.

**Holl Ymgysylltiadau:**
**74,116**
**4.5%**

**Ymgysylltiad Pleidleiswyr:**
**9,388**
**+ 21%**

**Ymgysylltiad RGA:**
**6,303**
**+ 15%**

**Ymgysylltiad Lleoliadau:**
**16,809**
**+ 14%**

## Yn arbennig o nodedig:

- **Lleoliadau:** I fyny o 14,798 i 16,809 (+14%), gan barhau'r tuedd gref o dwf ac yn awr ar eu lefel uchaf o ymgysylltiad erioed.
- **Rho Gynnig Arni**: I fyny o 5,475 i 6,303 (+15%), gan dynnu sylw at y galw cynyddol am weithgareddau cynhwysol, heb rwystrau.
- **Ymgysylltiad Pleidleiswyr:** Cynnydd o 7,771 i 9,388 (+21%), y lefel uchaf ers i gofnodion ddechrau, gan ddangos cyfranogiad cryfach mewn democratiaeth ac etholiadau.

Dros y flwyddyn nesaf, bydd Undeb y Myfyrwyr yn defnyddio Power BI, a fydd yn defnyddio dadansoddiad i symud y tu hwnt i'r prif gyfansymiau i fod yn fwy penodol a deall pwy sy'n ymgysylltu, pa mor aml, ac ym mha feysydd.

# Cymuned Caerdydd

## Rydyn ni’n gweithio i roi grym i fyfyrwyr arwain a datblygu cyfleoedd i adeiladu eu cymunedau, gan flaenoriaethu datblygu gweithgareddau sy’n tyfu aelodaeth amrywiol.

Dychwelodd y twrnamaint Varsity Cymru poblogaidd i Gaerdydd am flwyddyn lwyddiannus iawn. Prynodd 7,404 o fyfyrwyr Caerdydd docynnau i gefnogi eu timau mewn lleoliadau ar draws y ddinas, gan gynnwys Sefydliad Chwaraeon Cymru, Stadiwm y Principality, Criced Morgannwg a’r Pwll Rhyngwladol. Cystadlodd Caerdydd yn erbyn Abertawe mewn mwy na 50 gêm, gan gadw Tarian Varsity am flwyddyn arall gyda sgôr o 38.5–13.5.

Cafodd myfyrwyr fwy o gyfleoedd nag erioed i roi cynnig ar rywbeth newydd, gyda 125 o sesiynau blasu Rho Gynnig Arni ychwanegol o’i gymharu â Hydref 2024, gan arwain at gynnydd nodedig mewn ymgysylltiad myfyrwyr. Estynnodd tîm Rho Gynnig Arni hefyd eu rhaglen o ddigwyddiadau haf ar gyfer myfyrwyr sy’n aros yn y ddinas dros y gwyliau, gan gynnwys teithiau penodol i fyfyrwyr ôl-raddedig a rhyngwladol.

## Ymgysylltiad â gweithgareddau mewn rhifau:

- Roedd gan yr Undeb Athletau fwy na 5,600 o aelodau am y tro cyntaf, gyda 5,558 o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd ac 75 o aelodau cysylltiol. Cyrhaeddodd Urdd y Cymdeithasau 8,452 o aelodau, gan gynnwys 72 o aelodau cysylltiol. Rhwng y ddau, roedd bron i 12,000 o fyfyrwyr unigryw yn rhan o’r Undeb Athletau ac Urdd y Cymdeithasau eleni.
- Cododd Clwb Rygbi’r Dynion dros £42,000 ar gyfer Movember a chododd Dancesport £2,000 ar gyfer Marie Curie.
- Y tymor hwn, fe wnaethon ni gofrestru 99 o dimau wythnosol BUCS a chwaraeodd 927 o gemau, cynnydd o 43 o gemau o’r 884 a chwaraewyd yn 2023-24. O’r 927 o gemau hynny, cawsom 454 o fuddugoliaethau, 431 o golledion a 42 o gemau cyfartal.
- Fe wnaethon ni hyfforddi 105 o yrwyr a aeth ymlaen i wneud 515 o deithiau yng ngherbydau Undeb y Myfyrwyr, gan gofnodi cyfanswm anferth o 140,000 o filltiroedd.

# Bywyd academaidd

**Mae UMC yn anelu at gefnogi myfyrwyr ym mhob agwedd o'u bywyd academaidd, gan eu grymuso i lunio eu haddysg a darparu cefnogaeth os bydd pethau'n mynd o'i le.**

Roedd hi'n flwyddyn dda i dîm Llais y Myfyrwyr, gyda chynnydd mewn ymgysylltiad ar draws holl weithgaredd democratiaeth a chynrychiolaeth. Roedd hyn yn cynnwys yr ail nifer uchaf o bobl yn pleidleisio yn Etholiad y Gwanwyn gyda 8,521 o fyfyrwyr yn pleidleisio, 5,932 o sylwadau ychwanegol gan fyfyrwyr yn ystod ymgyrch flynyddol Wythnos Siarad, a'r nifer uchaf erioed o enwebiadau wedi'u derbyn ar gyfer Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr (1,962). Eleni, gwnaeth Llais y Myfyrwyr ymdrech go iawn i fynd allan a chyfarfod â myfyrwyr yn eu hamgylcheddau eu hunain, gan ddod â chyfleoedd yr Undeb yn syth atynt.



Mae'r fenter Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr yn parhau i fod yn llwyddiant allweddol i dîm Llais y Myfyrwyr. Ystyrir y lefelau ymgysylltiad a gyrhaeddwyd fel y capasiti uchaf ar gyfer y cynllun gan mai dim ond ychydig iawn o swyddi Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr sydd heb eu llenwi ar draws y Brifysgol. Bob blwyddyn, mae nifer y Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr sydd wedi'u hyfforddi'n llwyddiannus yn parhau i wella, ac eleni gwelsom ymgysylltiad gwych â'r arolwg diwedd blwyddyn a'r cynllun gwobrwyo newydd a gyflwynwyd am y tro cyntaf.

Mae'r tîm Cyngor yn parhau i gefnogi myfyrwyr gyda chyngor rhagweithiol yn ogystal â chymorth pan fydd pethau'n mynd o'i le. Eleni, mae'r tîm Cyngor wedi darparu cefnogaeth uniongyrchol i dros 2,000 o fyfyrwyr, yn ogystal ag adnewyddu eu tudalennau gwe i sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch ac ar gael yn hawdd i bob myfyriwr.

# Profiadau myfyrwyr

**Mae UMC yn anelu at ddarparu digwyddiadau a gwasanaethau eithriadol i bob myfyriwr, gyda ffocws ar amrywiaeth o gyfleoedd drwy gydol y dydd a'r nos.**

Eleni, fe wnaethom ddarparu ystod eang ac amrywiol o ddigwyddiadau a gwasanaethau wedi'u cynllunio i sicrhau rhywbeth at ddant pawb, o nosweithiau clwb poblogaidd i fannau hamdden newydd. Cafodd ein noson glwb nos Fercher, YOLO, flwyddyn anhygoel arall, gan ddenu dros 114,000 o fynychwyr rhwng mis Medi a Mehefin, cynnydd o 11% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn ystod y dydd, lansiwyd Y Cwtsh, man newydd a ddyluniwyd i ddarparu ardal well i fyfyrwyr astudio ac ymlacio ynddi. Mae ychwanegu'r uned newydd Tŷ Tatws wedi dod ag opsiwn cludfwyd blasus a fforddiadwy i'r campws, gan helpu hefyd i wrthbwyso gwneud llai o incwm o ddigwyddiadau clwb nos. Mae'r lleoliad eisoes yn gartref i nosweithiau clwb llai a chyfarfodydd corfforaethol, gyda chynlluniau cyffrous ar y gweill ar gyfer cerddoriaeth fyw.

## Gwasanaethau Myfyrwyr mewn rhifau:

- Croesawodd Wythnos y Glas 15,000 o fyfyrwyr i Undeb y Myfyrwyr, gydag ystod estynedig o weithgareddau di-alcohol i roi cyfle i bawb gymryd rhan.
- Rhoddodd ein hasiantaeth gosod eiddo, Cardiff Student Letting, gartref i 3,343 o fyfyrwyr yng Nghaerdydd.
- Gwelodd Caru Caerdydd, siop fanwerthu'r Undeb Myfyrwyr ar y campws, gynnydd sylweddol mewn gwerthiannau nwyddau yn ystod wythnos Graddio, gan gyrraedd £70.2k o incwm o'i gymharu â £64.4k yn 2024.



# Lles a'r dyfodol

**Rydyn ni'n gweithio i wrando'n weithredol ar yr hyn sydd ei angen ar fyfyrwyr ac i sefyll wrth eu hochr drwy gydol eu taith yn y brifysgol. Mae ein gweithgareddau'n anelu at rymuso myfyrwyr i ofalu am eu lles eu hunain ac am ei gilydd, ac rydyn ni'n eu cefnogi i ennill y sgiliau, y wybodaeth a'r gwydnwch sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i'w lle yn y byd.**

Dychwelodd ein hymgyrch boblogaidd Bwydo'ch Fflat am flwyddyn arall. Nod yr ymgyrch a'r digwyddiadau cysylltiedig yw cefnogi myfyrwyr yng nghanol yr argyfwng costau byw. Cynhaliwyd 13 o stondinau pop-yp Bwydo'ch Fflat, gan helpu dros 1,000 o fyfyrwyr i stocio fyny ar eitemau hanfodol ar gyfer eu cypyrddau. Diolch i gyllid gan Medr, dechreuodd waith cynllunio ar fenter newydd o'r enw Y Pantri. Bydd Y Pantri wedi'i leoli ar drydydd llawr adeilad yr Undeb Myfyrwyr, gan ddarparu gwasanaeth i fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd sydd mewn angen, fel y gallant gasglu bwyd a chynhyrchion hylendid hanfodol mewn amgylchedd croesawgar, heb feirniadaeth.

Rydyn ni'n gwybod y gall tymor arholiadau fod yn gyfnod llawn straen i fyfyrwyr, ac mae ein hymgyrch Cymorth Adolygu yn anelu at ddarparu adnoddau am ddim a lle tawel a chefnogol i helpu i reoli straen.

Cafodd mwy na 1,100 o fyfyrwyr eu cefnogi gyda nwyddau adolygu a diodydd poeth mewn 16 stondin dros dro ar draws y campws.

Yn ogystal â chefnogi iechyd a lles ein myfyrwyr, rydyn ni'n falch o'u helpu i baratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r brifysgol. Eleni, daeth 2,794 o fyfyrwyr o hyd i waith rhan-amser hyblyg trwy ein gwasanaeth Siopswyddi. Gyda'i gilydd, gweithion nhw 145,888 awr, a thalodd y Siopswyddi fwy na £2.47 miliwn mewn cyflogau'n uniongyrchol i'r myfyrwyr.

**Fel myfyriwr, mae Siopswyddi yn un o'r pethau gorau am Brifysgol Caerdydd a galla i ddim dychmygu beth fyddwn i wedi'i wneud heb y gwasanaeth hwn."**

# Adnoddau

**Mae adnoddau yn cwmpasu sefydlogrwydd ariannol UMC ynghyd â'r mannau ffisegol a'r asedau a ddatblygwyd gennym er lles myfyrwyr. Gellir dod o hyd i adroddiadau ariannol ar dudalen 19.**

## Hygyrchedd

Adeiladwyd siafft lifft newydd chwe llawr drwy ganol yr adeilad ac ychwanegwyd ail lifft teithwyr, gan alluogi mynediad sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DDA) i bob llawr o'r adeilad a chynllun wrth gefn pan fydd y lifft gwreiddiol allan o wasanaeth.

Rydym wedi ennill y Wobr Arian am y Cynllun Attitude Is Everything, sy'n cydnabod bod y lleoliad wedi ystyried cwsmeriaid byddar ac anabl wrth gynllunio a gweithredu ein digwyddiadau.

## Gwella ein hadeilad

Dechreuwyd gwaith ar nifer o brosiectau ar yr un pryd i wella seilwaith ein hadeilad, gan gynnwys adfer y to, ailosod toeon RAAC ar y pedwerydd llawr a gosod paneli solar newydd i wella ein heffeithlonrwydd ynni.

## Cynaliadwyedd

Rydym wedi sefydlu partneriaeth lwyddiannus gyda Too Good To Go i leihau gwastraff bwyd, yn unol â nodau cynaliadwyedd y sefydliad. Er bod yr elw ariannol yn gymharol fach, mae hyn wedi atal 321 o brydau bwyd rhag mynd i wastraff.

# Pobl

**Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn ymdrechu i greu gweithle cadarnhaol lle mae'r holl staff a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, eu grymuso a'u cynnwys.**

- Fe wnaethon ni gyflawni mesur boddhad o 92% ymhlith y staff a gwblhaodd Arolwg Ymgysylltiad Cyflogeion NUS, mewn ymateb i'r datganiad: 'Byddwn yn argymell y sefydliad hwn fel lle gwych i weithio.'

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni gymryd camau i gryfhau a gwella'r ffordd rydym yn cefnogi ein pobl ac yn sicrhau llywodraethu effeithiol ar draws y sefydliad. Yn dilyn adolygiad, fe wnaethom ni ddod â swyddogaethau Adnoddau Dynol a'r Swyddfa Weithredol at ei gilydd i ffurfio Adran newydd Pobl a Llywodraethu. Mae'r newid hwn yn caniatáu inni ddod ag arbenigedd allweddol ynghyd o fewn un tîm, gan greu dull mwy cydgysylltiedig a strategol o gefnogi staff ac ymddiriedolwyr.

**Mae'r sefydliad yn hyrwyddo diwylliant cefnogol a chadarnhaol lle gall pob aelod o staff deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a theimlo balchder yn eu gwaith "**



# Digidol a data

**Ers y pandemig, rydym wedi mabwysiadu dull digidol yn gyntaf ar draws y sefydliad ac wedi parhau i adeiladu ar hyn yn ystod 2024–25.**

Mae wedi bod yn flwyddyn o dwf o ran ein dull digidol yn gyntaf; o wella taith y cwsmer drwy'r broses gwerthu tocynnau ar gyfer twrnamaint Varsity Cymru, a chyflwyno microsafle enwebiadau newydd ar gyfer Etholiadau'r Gwanwyn, i wella ein seiberddiogelwch a chyflwyno offer adrodd data newydd.

Rydym wedi rhagori ar ein targed twf ar gyfer Instagram, sef ein prif blatfform cyfryngau cymdeithasol. Dechreusom dymor yr Hydref mewn sefyllfa gref diolch i gynnydd sylweddol mewn dilynwyr yn ystod cyfnod y Glas. Rydym hefyd wedi gweld twf cyson ar TikTok ers lansio'r cyfrif yn 2021. Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar dyfu ein presenoldeb i'w sefydlu ymhellach fel platfform allweddol eilaidd. Gan ystyried y dirwedd cyfryngau cymdeithasol sy'n newid yn barhaus, rydym wedi canolbwyntio ar greu cynnwys deniadol, sy'n seiliedig ar dueddiadau, i gyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol ac adeiladu dilyniant cryf a chyson.

## Twf dilynwyr cymdeithasol

- **Instagram +24%**
- **TikTok +46%**



# Cyllid

## Cyfanswm incwm yr Undeb oedd £14,039,688 (2024 – £12,908,971) gyda chyfanswm gwariant o £13,108,936 (2024 – £12,835,212) yn ystod y flwyddyn.

- Roedd incwm net y flwyddyn yn £2,302,539 (2024: treuliau net £(73,037)). Mae hyn yn cynnwys gwarged cyfyngedig o £536,861 a gwarged anghyfyngedig o £1,765,678.

- Cafodd y canlyniadau ariannol eleni eu llunio gan bryniant pensiwn adran 75 o'r Cynllun Pensiwn Undebau Myfyrwyr (SUSS), a arweiniodd at symudiad cadarnhaol o £1,371,787. Mae'r symudiad hwn yn seiliedig ar ryddhau darpariaeth ddisgownt ar y fantolen yn hytrach na gweithgarwch masnachol, ac nid yw'n arwain at gronfeydd arian ychwanegol. Galluogwyd cynnal y pryniant SUSS gan fenthyciad di-log gan y Brifysgol, sy'n ad-daladwy dros gyfnod o 12 mlynedd o fis Awst 2026 ymlaen. O ganlyniad i'r pryniant hwn, nid oes gan y sefydliad unrhyw rwymedigaeth cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio mwyach.

- Yn ystod y flwyddyn, bu buddsoddiad sylweddol hefyd yn adeilad Undeb y Brifysgol, fel rhan o welliannau parhaus i wella hygyrchedd, cynaliadwyedd, a'r cynnig elusennol a masnachol cyffredinol. Ymhlith y datblygiadau allweddol mae gosod ail lifft teithwyr, ychwanegu paneli solar, ailosod ardaloedd sylweddol o orchuddion to, ac uwchraddio ardaloedd masnachol.

- Ar 31 Gorffennaf 2025, roedd cronfeydd wrth gefn rhydd yr Undeb yn cyfateb i £1,803,781 (2024 – £1,886,847), ac mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bod gan yr Undeb sail ariannol gadarn i barhau i weithredu a dilyn ei amcanion a'i weithgareddau. Yn ogystal, cadwyd £609,795 (2024 – £72,934) mewn cronfeydd cyfyngedig.

- O fewn is-gwmni masnachu'r Undeb, Cardiff Union Services Limited, gostyngodd trosiant i £5,543,935 (2024 – £5,807,849). O ganlyniad i symudiadau mewn costau masnachu a gweithredol, cofnodwyd elw gweithredol o £89,033 (2024: colled o £(297,343)). At ei gilydd, yn bennaf o ganlyniad i'r pryniant cynllun pensiwn, cofnododd yr is-gwmni masnachu elw o £1,471,834 (2024 – colled o £(432,044)).

# Ymddiriedolwyr 2024-25

## Ymddiriedolwyr Sabothol

**Llywydd Undeb y Myfyrwyr:**
Maria Pollard
(O Gorffennaf 1af 2025)

**Llywydd Undeb y Myfyrwyr:**
Madison Hutchinson
(Hyd at Mehefin 30ain 2025)

**IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli:**
Eve Chamberlain
(O Gorffennaf 1af 2024)

**IL Chwaraeon a Llywydd yr UA:**
Molly Elliott
(O Gorffennaf 1af 2025)

**IL Chwaraeon a Llywydd yr UA:**
Georgia Spry
(Hyd at Mehefin 30ain 2025)

**IL Myfyrwyr Rhyngwladol: (Addysg a Lles):**
Hanan Haliru
(O Gorffennaf 1af 2025)

**IL Myfyrwyr Rhyngwladol: (Addysg a Lles):**
Ana Nagiel Escobar
(Hyd at Mehefin 30ain 2025)

**IL Campws Parc y Mynydd Bychan (Addysg a Lles):**
Joshua Tandy
(O Gorffennaf 1af 2025)

**IL Campws Parc y Mynydd Bychan (Addysg a Lles):**
Shola Bold
(Hyd at Mehefin 30ain 2025)

**IL Myfyrwyr Ôl-raddedig (Addysg a Lles):**
Sean Strong
(O Gorffennaf 1af 2025)

**IL Myfyrwyr Ôl-raddedig (Addysg a Lles):**
Micaela Panes
(Hyd at Mehefin 30ain 2025)

**Is-lywydd y Gymraeg:**
Cynwal ap Myrddin
(O Gorffennaf 1af 2025)

**Is-lywydd y Gymraeg:**
Catrin Edith Parry
(Hyd at Mehefin 30ain 2025)

## Ymddiriedolwyr Myfyrwyr

Emilia Parker
(Hyd at Mehefin 30ain 2025)

Edward Bright
(Hyd at Mehefin 30ain 2025)

Henry Whittaker
(o Gorffennaf 1af 2025)

Esther Olusola
(o Gorffennaf 1af 2025)

Izaak Morris
(o Gorffennaf 1af 2025)

## Ymddiriedolwyr wedi'u henwebu gan y Brifysgol

Jayne Sadgrove
(O Mai 15fed 2019)

Agnes Xavier-Phillips
(Hyd at Mehefin 30ain 2025)

## Ymddiriedolwyr Allanol

Elliot Howells
(O 15fed Rhagfyr 2021)

Ray Singh CBE
(O 13eg Tachwedd 2018)

Sian Davies
(O Mehefin 12fed 2024)

## Staff Uwch

**Prif Weithredwr:**
Daniel Palmer

**Dirprwy Brif Weithredwr:**
Raechel Mattey

**Cyfarwyddwr Cyllid:**
Jan Boyce

**Cyfarwyddwr Menter:**
Phil Dayment

**Cyfarwyddwr Cyfranogiad a Diogelu:**
Steve Wilford

## Swyddfa Gofrestredig

Plas y Parc, Caerdydd, Wales. CF10 3QN

**Rhif Cwmni Cofrestredig:**
07328777

**Rhif Elusen Gofrestredig:**
1137163

Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd